# CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA MARGAM

**(Gan weithredu gydag Awdurdod Cyflawn)**

**<u>Yn bresennol:</u>** **<u>Dydd Gwener, 18 Mehefin 2021</u>**

| | |
|---|---|
| **Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:** | **Councillors** E.V.Latham, S.M.Penry a/ac R.L.Taylor |
| **Yn Cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr:** | **Y Cynghorydd** A. Pucella |
| **Swyddogion a oedd yn bresennol:** | C.Griffiths, C.Phillips, H.Jenkins, C.Langdon a/ac Naidine Jones |

---

1. **<u>PENODI CADEIRYDD 2021-22</u>**

Cyn ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, dechreuodd Mr C Griffiths y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd E V Latham yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-22.

2. **<u>PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2021-22</u>**

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd S Smith yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Margam ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2021-22.

3. **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

## 4. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2020/21

Dywedodd yr Aelodau fod 217 yn fwy o amlosgiadau y llynedd a chafwyd cynnydd o £140,000 yn yr incwm, ond cafwyd gostyngiad o £10,000 mewn gwariant. Eglurodd swyddogion y cafwyd cynnydd o ran gwariant mewn rhai meysydd a bod y prif ostyngiad yn ymwneud â gwaith cyfalaf.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r adroddiad alldro ar gyfer 2020/21, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Y byddai Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo ac yn llofnodi'r Adroddiad Blynyddol, cyn ardystiad yr archwiliad allanol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

Cadarnhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 5. CYMRYD RHAN YNG NGHYNLLUN RHEOLI'R SEFYDLIAD MYNWENTYDD AC AMLOSGFEYDD

Trafododd yr aelodau elusennau profedigaeth lleol, a pha elusen y cytunwyd arni i'w henwebu ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

**PENDERFYNWYD:** Y byddai Amlosgfa Margam yn parhau i gymryd rhan yn y Cynllun Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd.

Y byddai'r aelodau'n cefnogi elusen ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2021-22 sef Tŷ Hafan.

## 6. CYMHARU AMLOSGIADAU MISOL

Rhannodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y gymhariaeth fisol o amlosgiadau a gynhaliwyd o 1 Ebrill 2017, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.
Roedd yr aelodau am ddiolch i swyddogion am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD:** Y bydd aelodau'n nodi nifer yr amlosgiadau a gynhaliwyd yn Amlosgfa Margam ers 1 Ebrill 2017

## 7. EITEMAU BRYS

Roedd y Cadeirydd am ddiolch i holl staff Amlosgfa Margam am eu holl waith caled yn ystod y pandemig.

**CADEIRYDD**